# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 5 Mawrth 2021 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 9 Mawrth 2021 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 16 Mawrth 2021 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai

**PWNC: Trosglwyddo rhan o gyn safle Ysgol Beuno Sant.**.

**PENDERFYNIAD –** I drosglwyddo perchnogaeth rhan o gyn safle Ysgol Beuno Sant yn uniongyrchol i Stad Rhiwlas, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Yr Aelod Lleol

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Lowri Cadwaladr Roberts<br>Rheolwr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 05.03.2021 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc : Trosglwyddo rhan o gyn safle Ysgol Beuno Sant.**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I drosglwyddo perchnogaeth rhan o gyn safle Ysgol Beuno Sant yn uniongyrchol i Stad Rhiwlas, a hyny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Galluogi'r Cyngor, mewn cyd-weithrediad a Chwmni Pum Plwy Penllyn i sicrhau arian grant gan y Llywodraeth er mwyn gwireddu cynllun addysg feithrin a gofal plant ar safle Ysgol Beuno Sant yn unol ac amcanion yr Adran Plant.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Yn dilyn cau Ysgol Beuno Sant fel rhan o'r broses adrefnu addysg yn ardal Penllyn, mae oblygiadau cyfreithiol yn golygu fod Safle'r ysgol wreiddiol yn trosglwyddo yn ol i berchnogaeth Stad Rhiwlas fel rhoddwyr gwreiddiol y safle.

Adeiladwyd estyniad i adeilad gwreiddiol ysgol Beuno Sant gan y Cyngor yn y ddiweddarach, a hyny yn rhanol ar dir sydd yn parhau ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd. Mae'r rhan hwn o'r estyniad felly ym mherchnogaeth y Cyngor.

Fel rhan o adeilad ehangach Ysgol Beuno Sant sydd mewn perchnogaeth preifat, ni ystyrir fod gwerth unigol i'r estyniad sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd.

Byddai'r  trosglwyddiad bwriedig o'r rhan o'r safle sydd yn parhau ym mherchnogaeth y Cyngor yn amodol ar oblygiad ar i Stad y Rhiwlas i ddarparu prydles o safle'r ysgol yn ei gyfanrwydd i Gwmni Pum Plwy Penllyn am gyfnod o oleiaf 10 mlynedd, a hynny yn benodol ar gyfer defnydd addysg feithrin a gofal plant. Byddai hynny yn ei dro yn galluogi'r Cyngor, mewn cydweithrediad a

Chwmni Pum Plwy Penllyn i sicrhau arian grant gan y Llywodraeth er mwyn gwireddu cynllun addysg feithrin a gofal plant ar safle.

Byddai'r trosglwyddiad hefyd yn galluogi i'r ddarpariaeth feithrin bresennol y Bala i adleoli o gyn safle Ysgol Bro Tegid i gyn safle Ysgol Beuno Sant er mwyn ehangu ar yr opsiynnau o ran datblygiad tai fforddiadwy ar gyn safle Ysgol Bro Tegid yn unol a'r Cynllun Gweithredu Tai.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Dim.

**Prif Swyddog Cyllid** – "O dan yr amgylchiadau, mae'n amlwg nad oes gwerth i eiddo'r Cyngor (sef estyniad i'r prif adeilad) ar y farchnad agored gan fod gweddill yr adeilad dan berchnogaeth arall a ni fydd ffordd i'r Cyngor gael cydnabyddiaeth ariannol o waredu'r eiddo sydd yn ei berchnogaeth mewn gwerthiant annibynnol. Credaf felly fod y camau gweithredu a awgrymir yn ffordd o sicrhau fod y Cyngor yn gallu defnyddio'i ased mewn ffordd sydd yn gwireddu un o'i amcanion, a'i fod yn briodol fod y Cyngor yn gwaredu'r eiddo ar delerau a bennir gan y Pennaeth Tai ac Eiddo yn y dull a amlinellir."

**Swyddog Monitro** – "Mae amgylchiadau penodol iawn yn ynghlwm a'r trosglwyddiad yma sydd wedi bod yn destun cyngor gan y gwasanaethau Cyfreithiol . Rwy'n fodlon ar briodoldeb yr hyn a awgrymir."

**Aelod/au Lleol: Y Cyngorydd Dilwyn Morgan**

"Cefnogi y penderfyniad yn llwyr. Mae hwn yn gynllun cymunedol pwysig."